# Cynllun gwerthuso 2023 y Cwricwlwm i Gymru

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:**

Y Gangen Ymchwil Ysgolion
Ys Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

ISBN digidol 978-1-83504-276-2
© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2023
WG47893

# Cynnwys


**Adran 1 – cyflwyniad** **2**

**Adran 2 – cefndir** **4**

**Adran 3 – astudiaethau gwerthuso sy’n cael eu datblygu** **10**

Gwerthusiad ffurfiannol amlflwydd ynghyd ag archwiliadau dwfn 12

Rhaglen fonitro genedlaethol yn seiliedig ar samplau, (yn amodol ar astudiaeth ddichonoldeb yn y flwyddyn academaidd 2023 i 2024) 14

Astudiaeth carfan 16

Synthesis ymholiadau ymarferwyr 18

Adolygiad o gydlyniaeth y system 19

**Adran 4 – ffynonellau data eraill** **20**

Prosiectau tystiolaeth sy'n cyfrannu at y gwerthusiad o'r Cwricwlwm i Gymru 21

**Adran 5 – gwaith datblygu pellach sydd ei angen** **23**

**Adran 6 – effaith gwerthuso a phriodoli** **27**

## Adran 1 – cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru, wedi ymrwymo i gynnal gwerthusiad trylwyr a thryloyw o'r diwygiadau i'r cwricwlwm a threfniadau asesu (y diwygiadau) yng Nghymru.

2. Diben 'Cynllun gwerthuso 2023 y Cwricwlwm i Gymru' (y cynllun) yw disgrifio'r dull y bwriedir ei ddefnyddio i werthuso'r diwygiadau. Mae'r cynllun yn rhoi fframwaith ar gyfer y ffordd y byddwn yn casglu tystiolaeth o bob rhan o'r system ysgolion er mwyn ein helpu i ddeall sut mae'r diwygiadau yn gweithio ac ystyried i ba raddau y maent yn cael yr effaith ddymunol ar bob dysgwr, ni waeth beth fo'i gefndir na'i anghenion.

3. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth i ddeall yr hyn sy'n gweithio'n dda, a pham. Byddwn yn rannu hynny â'r system ehangach er mwyn hybu cynnydd dysgwyr, gwella ysgolion ac ennyn hyder athrawon. Bydd gwneud hynny'n helpu i weld pan na fydd pethau'n datblygu fel y byddem wedi disgwyl iddynt, a pham. Gallwn wedyn weithio gyda phartneriaid y system i ganolbwyntio cymorth a chanllawiau yn y mannau cywir.

4. Er mwyn gweithredu'r cwricwlwm, mae'n hanfodol ein bod yn gallu casglu amrywiaeth o safbwyntiau gan ymarferwyr wrth gynnal y gwerthusiad hwn. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym ddarlun cyflawn o'r broses weithredu, a bod gennym yr wybodaeth gywir i lywio ein cymorth parhaus i ysgolion a lleoliadau wrth i'r diwygiadau gael eu rhoi ar waith. Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau sydd ar ysgolion a lleoliadau. Er mwyn lleihau faint o amser ymarferwyr y byddwn yn ei ddefnyddio yn ystod y gwerthusiad, byddwn yn gwneud y canlynol:

   a) defnyddio dull samplu er mwyn sicrhau mai dim ond is-set o ysgolion a gaiff eu gwahodd i gymryd rhan ym mhob un o'r astudiaethau
   b) blaenoriaethu'n ofalus a gweithio fesul cam dros nifer o flynyddoedd, er mwyn sicrhau mai dim ond y cwestiynau pwysicaf a ofynnir ar unrhyw adeg
   c) lle y bo'n bosibl, cysoni ac integreiddio prosiectau gwerthuso'r Cwricwlwm i Gymru â gwaith casglu tystiolaeth arall er mwyn rhoi darlun cyfannol, lleihau'r baich ar gyfranogwyr a gwneud y defnydd gorau o adnoddau
   d) datblygu adnoddau ymchwil ar y cyd ag ymarferwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn ystyrlon ac yn annog cyfranogwyr i ymateb iddynt
   e) sicrhau bod cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch ymchwil neu werthuso yn gwbl wirfoddol

5. Rydym yn cydnabod y bydd gweithredu'r cwricwlwm yn broses hirdymor ac y bydd yn rhaid inni barhau i werthuso ei effeithiolrwydd dros y tymor hwy. Bydd y cynllun hwn  yn ddogfen fyw, a gaiff ei hadolygu'n flynyddol i gyd-daro ag adroddiad blynyddol y Cwricwlwm i Gymru, a bydd yn cael ei

haddasu i ystyried blaenoriaethau sy'n newid wrth i ni feithrin dealltwriaeth well drwy waith gwerthuso a thystiolaeth arall.

6. Mae'r Cynllun hwn yn cyflwyno disgrifiad o'n dull arfaethedig.

- Mae adran 2 yn rhoi cefndir i'r gwerthusiad, gan ganolbwyntio ar 'astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru: adroddiad terfynol' (yr astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso), sydd wedi rhoi'r sylfaen ar gyfer ein dull o werthuso'r diwygiadau.
- Mae adran 3 yn rhoi trosolwg o'r prif astudiaethau gwerthuso sy'n cael eu datblygu a'r rhesymeg dros flaenoriaethu'r rhain.
- Mae adran 4 yn crynhoi'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu ar draws y system ysgolion sy'n berthnasol i'n dealltwriaeth o'r diwygiadau i'r cwricwlwm.
- Mae adran 5 yn nodi'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach, gan gyfeirio at yr argymhellion a wnaed yn yr astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso.
- Mae Adran 6 yn myfyrio'n fras ar ddeall effeithiau tymor hwy.

## Adran 2 – cefndir

7. Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru: adroddiad terfynol (astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso) a ddatblygwyd gan Ymchwil Arad mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

8. Nod yr astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso oedd cyfleu'r ddamcaniaeth newid, y tybiaethau a'r dystiolaeth sy'n sail i'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio wedyn i ddatblygu argymhellion ar gyfer rhaglen monitro a gwerthuso gadarn.

9. Un o brif feysydd ffocws yr adroddiad yw'r theori newid, sy'n esbonio sut y disgwylir i'r broses ddiwygio gyflawni ei nodau a'i hamcanion, drwy nodi'n glir y mewnbynnau, y gweithgareddau, yr allbynnau, y deilliannau a'r effeithiau disgwyliedig, yn ogystal â'r cysylltiadau y tybir sydd rhyngddynt.

10. Mae adran 3 o'r astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso yn nodi damcaniaeth newid y rhaglen, gan gynnwys:

    - gweithgareddau ar gyfer ymarferwyr a'u deilliannau byrdymor
    - gweithgareddau ar gyfer ymarferwyr (er enghraifft. newidiadau i arferion)
    - gweithgareddau a ddarperir gan y system a'u deilliannau byrdymor
    - deilliannau tymor canolig i ddysgwyr, ymarferwyr, rhieni a gofalwyr
    - deilliannau tymor hwy (cymdeithasol), gan gynnwys cysylltiadau â Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

11. Mae Adran 11 o'r astudiaeth gwmpasu yn cyflwyno'r cwestiynau ymchwil a gwerthuso y dylai Llywodraeth Cymru eu gofyn er mwyn ystyried i ba raddau y mae mecanweithiau'r theori newid yn gweithio yn ôl y disgwyl.

12. Un o ganfyddiadau allweddol yr adroddiad yw y dylai'r data sydd eisoes ar gael ddarparu tystiolaeth ddigonol i ateb y cwestiynau ymchwil a gwerthuso yn llawn. O ganlyniad, mae angen dylunio a chyflwyno rhaglen ymchwil a gwerthuso sy'n cynhyrchu'r data a'r mewnwelediadau sydd eu hangen i ddeall effeithiolrwydd a deilliannau'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm.

13. Mae'r awduron yn argymell y dylid cynnal cyfres gynhwysfawr o astudiaethau, a ddylai, gyda'i gilydd, ein galluogi i archwilio cynnydd ac effaith y diwygiadau i'r cwricwlwm dros amser. Cynigiwyd naw astudiaeth, y mae rhai ohonynt yn pwysleisio archwiliad eang a hir o lwyddiant y diwygiadau i'r cwricwlwm, a nifer ohonynt yn cydnabod pwysigrwydd cynnal ymchwiliad manwl i agweddau mwy penodol ar y gwaith. Mae'r astudiaethau fel a ganlyn.

| Rhif yr astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso | Teitl | Diben | Cwestiwn ymchwil neu werthuso symlach |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwerthusiad ffurfiannol a phroses o wireddu'r cwricwlwm (hirdymor ac ar raddfa fawr) | Monitro a gwerthuso i ba raddau y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei wireddu a'r prosesau sy'n cefnogi ei wireddu. | A yw'r broses gyfan o ddiwygio'r cwricwlwm yn gweithio yn ôl y gobaith a'r disgwyl? |
| 2 | Astudiaeth samplu genedlaethol (rhaglen barhaus, ar raddfa fawr o asesiadau i ddeall cynnydd dysgwyr ac unrhyw amrywiadau ar gyfer grwpiau penodol). Wedi'i dylunio yn seiliedig ar samplau er mwyn datgysylltu oddi wrth berfformiad ysgolion. | Darparu asesiadau rheolaidd ar lefel genedlaethol o gyrhaeddiad dysgwyr ym mhob un o'r meysydd dysgu a phrofiad ac elfennau eraill y Cwricwlwm i Gymru er mwyn pennu blaenoriaethau'r system ac ystyried gwelliannau iddi yn hytrach na phrofion lle mae llawer yn y fantol i'r ysgolion sy'n cymryd rhan.<br><br>Nodi tueddiadau o ran perfformiad addysgol ar lefel genedlaethol ar gyfer grwpiau penodol o blant (er enghraifft dysgwyr sy'n wynebu mathau gwahanol o anfantais a/neu niwed). | A yw ein plant ledled y wlad yn gwneud yn (gynyddol) dda? |
| 3 | Astudiaeth carfan genedlaethol: 'Tyfu i fyny gyda'r Cwricwlwm i Gymru' | Creu darlun o sut brofiad yw dysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru, a sut y mae cynnydd yn y cwricwlwm yn digwydd, drwy ddilyn carfan sengl o | Sut beth yw'r daith gwricwlaidd i ddysgwyr sy'n astudio'r Cwricwlwm i Gymru o |

| Rhif yr astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso | Teitl | Diben | Cwestiwn ymchwil neu werthuso symlach |
|---|---|---|---|
| | | ddysgwyr dros gyfnod cyfan eu profiad addysgol neu eu profiad o gwricwlwm. | flwyddyn i flwyddyn? |
| 4 | Astudiaeth genedlaethol o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu | Archwilio cynnydd ysgolion ym mhob rhan o'r system tuag at fod yn ysgolion sy'n sefydliadau sy'n dysgu. Deall y gydberthynas rhwng ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu a datblygu a/neu wella cyfalaf dynol, cyfalaf cymdeithasol ac ymarfer proffesiynol er budd dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru. | A yw ysgolion mewn sefyllfa dda fel sefydliadau sy'n dysgu i groesawu'r newidiadau sy'n ofynnol gan y Cwricwlwm i Gymru? |
| 5 | Adolygiad o gydlyniaeth y system | Adolygu i ba raddau, a sut, y mae gweithgareddau ar lefel y system: yn ffafriol i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi; yn cefnogi ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel sy'n gwella. | A yw popeth rydym yn ei wneud yn gyson â dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru? |
| 6 | Astudiaethau achos: Elfennau o’r cwricwlwm | Datblygu dealltwriaeth fanwl amlweddog o sut y mae lleoliadau ac ymarferwyr yn cael eu cefnogi ac yn ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru, ac effaith yr ymdrechion hynny ar ymarfer proffesiynol a phlant a phobl ifanc. | Beth sy'n digwydd mewn gwirionedd? Sut mae'r geiriau yng nghanllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu rhoi ar |

| **Rhif yr astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso** | **Teitl** | **Diben** | **Cwestiwn ymchwil neu werthuso symlach** |
|---|---|---|---|
| | | Gellid adeiladu ar ganfyddiadau astudiaethau eraill (yn enwedig Astudiaeth 1), gan ystyried agweddau ar y broses wireddu mewn ffordd benodol, argymell ymarfer effeithiol a chefnogi anghenion yn ymwneud ag elfennau penodol o'r cwricwlwm. | waith yn ymarferol? |
| 7 | Ymchwil astudiaeth achos: Gweithgareddau a/neu ddeilliannau'r ddamcaniaeth newid | Datblygu dealltwriaeth fanwl, amlhaenog o'r gweithgareddau a'r deilliannau sydd wedi'u hanelu at gefnogi'r gwaith o wireddu'r Cwricwlwm i Gymru, a'r gydberthynas rhyngddynt. | A yw'r pethau yr oeddem yn meddwl y byddent yn helpu i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru yn gweithio yn ôl y disgwyl? |
| 8 | Astudiaethau ymyrraeth: Ymchwil a datblygu | Darparu ymyriadau o ansawdd uchel, gan ddefnyddio dull ymchwil a datblygu, i feithrin gallu a gwella amodau y nodwyd bod angen eu gwella.<br><br>Dysgu am yr amodau lle y gall ymyriadau fod yn effeithiol a lle y gellir eu gweithredu ar raddfa. | A yw ein mentrau a anelir at wella ymarfer yn gweithio, a beth y gallwn ei ddysgu oddi wrthynt? |

| Rhif yr astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso | Teitl | Diben | Cwestiwn ymchwil neu werthuso symlach |
|---|---|---|---|
| 9 | Cydweithrediadau ymholiadau ymarferwyr | Galluogi athrawon ac ysgolion, mewn partneriaeth ag arbenigwyr allanol, i gynnal ymholiad proffesiynol cadarn a dysgu oddi wrtho, ac i grynhoi canfyddiadau ar draws ymholiadau ymarferwyr mewn ffyrdd sy'n galluogi'r system gyfan i ddysgu o'r mewnwelediadau hynny. | Beth mae ymarferwyr yn ei ddysgu o'u hymholiadau a beth mae'r dysgu hwnnw'n ei olygu ar gyfer y system? |

14. Argymhellodd yr awdurdod hefyd gyfres o egwyddorion a ddylai fod yn sail i'r rhaglen ymchwil a gwerthuso a'r astudiaethau cydrannol sy'n rhan ohoni. Dylai'r ymchwil a'r gwerthuso wneud y canlynol:

a) ystyried a yw'r weledigaeth a'r gofynion a nodir yn fframwaith cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu gwireddu drwy weithredoedd ysgolion, lleoliadau a'r system addysg ehangach
b) rhoi lle canolog i ddysgwyr – a deall cynnydd dysgwyr
c) canolbwyntio ar weithgareddau a deilliannau, a'r cydberthnasau rhyngddynt
d) defnyddio dull system gyfan a chanolbwyntio ar ddeall newidiadau/gwelliannau i'r system
e) arddel safbwynt hirdymor, gan gynnwys dyluniadau ymchwil hydredol ochr yn ochr â methodolegau eraill
f) arddel safbwynt eang – gan ymgorffori ymchwil manwl i agweddau newydd ar y diwygiadau, ochr yn ochr â heriau (traddodiadol) mwy sefydledig
g) llywio dysgu'r system yn barhaus – a chynnwys gweithgareddau a gynllluniwyd a gweithgareddau ymatebol
h) cydnabod y cyd-destunau ieithyddol amrywiol ar draws y system ac adlewyrchu ymrwymiadau Llywodraeth Cymru a phartneriaid i helpu i feithrin sgiliau Cymraeg dysgwyr
i) ennyn ymddiriedaeth yn y broses werthuso ymhlith y rheini sy'n cyfrannu ati a chynulleidfaoedd yr ymchwil
j) defnyddio arbedion effeithlonrwydd a manteisio ar yr arbenigedd presennol i gefnogi'r broses werthuso

15. Yn ein dogfen ‘Astudiaeth gwmpasu yn ymwneud â gwerthuso’r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru: ymateb y llywodraeth’, gwnaethom:

- dderbyn dull a chanfyddiadau'r awduron
- cydnabod bod angen rhaglen ymchwil, monitro a gwerthuso uchelgeisiol ac eang sy'n gymesur â graddfa ein cwricwlwm trawsnewidiol
- ymrwymo i ystyried y rhaglen waith a argymhellwyd wrth ddatblygu ein dull gwerthuso
- cytuno y dylai'r gweithgarwch ymchwil a gwerthuso gael ei ategu gan yr egwyddorion a amlinellir yn yr adroddiad cwmpasu ar gyfer gwerthuso

## Adran 3 – astudiaethau gwerthuso sy'n cael eu datblygu

16. Yn gyson â'r adnoddau sydd ar gael, cynigiwn y dylid canolbwyntio ar 5 o'r 9 astudiaeth a gynigiwyd yn y byrdymor, yn ogystal ag elfennau o 2 astudiaeth arall hefyd.

    a) Bydd y 'gwerthusiad ffurfiannol' yn rhoi darlun ansoddol a meintiol inni o'r ffordd y mae'r diwygiadau yn gweithio, sut mae arferion yn newid, a phrofiad ymarferwyr, dysgwyr a'u teuluoedd o'r newidiadau hyn.
    b) Caiff hyn ei ategu gan nifer cyfyngedig o 'astudiaethau achos dwfn' ar:
        i. elfennau penodol â blaenoriaeth o'r cwricwlwm (er enghraifft meysydd dysgu a phrofiad, sgiliau trawsgwricwlaidd, elfennau trawsgwricwlaidd gorfodol)
        ii. gweithgareddau a/neu ddeilliannau'r ddamcaniaeth newid (e addysg gychwynnol i athrawon, dysgu proffesiynol, arweinyddiaeth).
    c) Bydd y 'rhaglen fonitro genedlaethol yn seiliedig ar samplau' yn rhoi darlun treigl inni o gyrhaeddiad dysgwyr a chynnydd cenedlaethol ar draws y cwricwlwm.
    d) Bydd yr 'astudiaeth carfan' – nad yw wedi'i dechrau eto – yn rhoi trosolwg hydredol inni o brofiadau, cynnydd a chyflawniadau carfan o ddysgwyr hyd at 25 oed. Bydd hyn yn asesu i ba raddau y mae'r pedwar diben yn cael eu gwireddu o fewn addysg 3 i 16 oed a thu hwnt. Noder, oherwydd maint astudiaeth o'r fath, byddem yn dibynnu ar gyllid allanol, er enghraifft cyllid cyngor ymchwil, i fwrw ymlaen â'r prosiect hwn.
    e) Wrth wraidd y diwygiadau y mae cydnabyddiaeth bod ansawdd ymarfer proffesiynol ac i ba raddau y mae'n gwella yn dylanwadu'n uniongyrchol ar gynnydd dysgwyr. Ategir gwelliannau o'r fath wrth i ymarferwyr ymgorffori ymholiad proffesiynol cadarn yn eu hymarfer. Bydd 'synthesis o ganfyddiadau ymholiadau ymarferwyr' a luniwyd drwy'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol yn sicrhau y caiff y gwersi a ddysgwyd gan ymarferwyr ym mhob rhan o'r system eu harneisio a'u bod yn darparu mewnwelediad fydd o fudd i bawb.
    f) Ar lefel y lleoliad, bydd y gwerthusiad ffurfiannol yn casglu tystiolaeth gan ymarferwyr ac arweinwyr mewn perthynas â'r ffordd y maent yn rhyngweithio â'r system ehangach. Ar lefel genedlaethol, 'bydd adolygiad mwy strategol o gydlyniaeth y system' – nad yw wedi'i ddechrau eto – yn canolbwyntio ar swyddogaethau, gweithredoedd a safbwyntiau rhanddeiliaid.

17. Er mai dim ond darlun rhannol y mae pob un o'r astudiaethau hyn yn ei roi, gyda'i gilydd, maent yn rhoi amrywiaeth o safbwyntiau a mathau o wybodaeth inni y gallwn eu defnyddio, wedi'u triongli â chyfres ehangach o wybodaeth o bob rhan o'r system addysg, gan gynnwys gwybodaeth am les, cyrhaeddiad a gwelliannau i ysgolion, i ddeall cynnydd ar lefel genedlaethol a llywio cymorth i ddatblygu'r system a pholisïau yn y dyfodol.

18. Mae'n bwysig gwybod bod y Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi pob un o'n dysgwyr. Yn benodol, sut mae'r cwricwlwm yn cefnogi ein huchelgais i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar ddeilliannau addysgol, yn cynnwys dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac yn sicrhau y gallant wireddu eu potensial, ac yn cefnogi grwpiau eraill â nodweddion gwarchodedig yn briodol. Rhaid inni hefyd sicrhau bod astudiaethau'n cynrychioli'r amrywiaeth o ysgolion, lleoliadau a staff sydd gennym yng Nghymru.

19. Mae'r tablau hyn yn dangos ffocws ac amserlenni'r 5 astudiaeth achos sy'n cael eu datblygu:

## Gwerthusiad ffurfiannol amlflwydd ynghyd ag archwiliadau dwfn

| Elfennau | Manylion |
|---|---|
| **Cysylltiad ag argymhellion yr astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso:** | Astudiaeth 1 – 'Gwerthusiad Ffurfiannol a phroses o wireddu'r cwricwlwm'<br><br>Mae rhai o elfennau astudiaethau 6 a 7 wedi'u hymgorffori yn y gwerthusiad ffurfiannol er mwyn lleihau'r baich ar ysgolion a gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig:<br><br>• Astudiaeth 6: 'Astudiaethau achos: Elfennau o'r cwricwlwm'<br>• Astudiaeth 7: 'Astudiaethau achos: Gweithgareddau a/neu ddeilliannau'r ddamcaniaeth newid |
| **Cwestiynau ymchwil a gwerthuso allweddol y bydd yr astudiaeth hon yn eu hateb, sy'n gysylltiedig â damcaniaeth newid y rhaglen:** | Bydd y cwestiynau cyffredinol hyn yn llywio'r gwaith, ond ni fydd pob un ohonynt yn cael eu cynnwys yng nghamau cyntaf y gwerthusiad. Bydd angen inni flaenoriaethu yn unol ag amser ac i leihau'r baich ar ysgolion a lleoliadau:<br><br>• I ba raddau y mae dyheadau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu gwireddu?<br>• Beth yw'r tueddiadau o ran cynnydd tuag at wireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru?<br>• I ba raddau mae'r cyfalaf dynol, cyfalaf cymdeithasol ac amodau mewn lleoliadau yn cefnogi ymarfer proffesiynol sy'n helpu i wireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru?<br>• I ba raddau y mae gweithgareddau ar draws y system yn helpu i ddatblygu cyfalaf dynol, cyfalaf cymdeithasol ac amodau mewn lleoliadau mewn ffyrdd |

| Elfennau | Manylion |
|---|---|
| | sy'n helpu i wireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru dros amser?<br><br>• Sut mae gwaith y rheini ar draws y system addysg yn helpu i wireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru?<br><br>• I ba raddau mae'r broses o wireddu'r Cwricwlwm yn amrywio ar gyfer ysgolion, lleoliadau ac ymarferwyr?<br><br>• Sut mae ymdrechion i weithredu'r cwricwlwm yn helpu ymarferwyr i gefnogi dysgwyr ag ADY a'r rhai sy'n wynebu mathau gwahanol o anfantais a/neu niwed?<br><br>• Beth yw profiad dysgwyr ag ADY a'r rhai sy'n wynebu mathau gwahanol o anfantais a/neu niwed o'r cwricwlwm, a pham?<br><br>Cwestiynau archwiliadau dwfn – elfennau o'r cwricwlwm<br><br>• Beth sy'n gweithio'n dda i arweinwyr ysgolion a lleoliadau, ymarferwyr a dysgwyr ar draws amrywiaeth o bynciau?<br><br>• Pam mae'n gweithio, ym mha ffyrdd ac i bwy?<br><br>• Beth yw'r ffactorau sy'n rhwystro ac yn hwyluso llwyddiant i arweinwyr ysgolion a lleoliadau, ymarferwyr a dysgwyr?<br><br>• Pwy sy'n wynebu'r ffactorau hyn sy'n rhwystro ac yn hwyluso, pam ac ym mha ffyrdd?<br><br>• I ba raddau mae'r cymorth sydd ar gael, gan gynnwys dysgu proffesiynol, canllawiau ac adnoddau eraill, yn diwallu anghenion arweinwyr ac ymarferwyr ac yn gwella ymarfer proffesiynol ac arweinyddiaeth mewn ffyrdd sy'n cefnogi dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru? |

| Elfennau | Manylion |
|---|---|
| | • Pa gymorth pellach sydd ei angen?<br>• Cwestiynau manwl sy'n benodol i'r pwnc (er enghraifft, beth mae ysgolion a lleoliadau yn ei wneud i fynd i'r afael â materion penodol; sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio'n ymarferol?) |
| **Sampl:** | • Ymarferwyr (arweinwyr, athrawon a gweithwyr cymorth dysgu)<br>• Dysgwyr<br>• Rhieni a gofalwyr<br><br>Defnyddir samplau ansoddol mawr er mwyn sicrhau cyffredinoliad. Defnyddir samplau ychwanegol ar gyfer rhai grwpiau o ddysgwyr a'u rhieni a gofalwyr er mwyn llunio casgliadau am brofiadau a deilliannau amrywiol grwpiau gwahanol i gefnogi tegwch. |
| **Yr amserlen:** | • Caffael – haf 2023<br>• Dechrau'r astudiaeth hydref – 2023<br>• Cynnal yr astudiaeth hyd at y flwyddyn academaidd 2027 i 2028 yn y lle cyntaf<br>• Adrodd yn rheolaidd o'r flwyddyn academaidd 2023 i 2024<br>• Disgwylir adroddiadau blynyddol, gyda phoblogaethau a/neu ffocws gwahanol bob blwyddyn i leihau'r baich ar y rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil |

## Rhaglen fonitro genedlaethol yn seiliedig ar samplau, (yn amodol ar astudiaeth ddichonoldeb yn y flwyddyn academaidd 2023 i 2024)

| Elfennau | Manylion |
|---|---|
| **Cysylltiad ag argymhellion yr astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso:** | Astudiaeth 2 – 'Astudiaeth samplu genedlaethol' |
| **Cwestiynau ymchwil a** | Bydd yr astudiaeth hon yn defnyddio asesiadau sampl ar draws meysydd dysgu a |

| **Elfennau** | **Manylion** |
|---|---|
| **gwerthuso allweddol y bydd yr astudiaeth hon yn eu hateb, sy'n gysylltiedig â damcaniaeth newid y rhaglen:** | phrofiad a sgiliau y Cwricwlwm i Gymru mewn cylch amlflwydd, gan ganolbwyntio ar elfennau penodol bob blwyddyn. Byddwn yn sicrhau y caiff y dull hwn ei arwain gan egwyddorion sy'n gyson â'r Cwricwlwm i Gymru. Yn benodol, bydd yr astudiaeth hon yn:<br><br>• nodi safonau cenedlaethol a chynnydd wrth ddysgu<br>• dweud wrthym a ydym yn sicrhau bod dysgwyr yn meithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt yn ddiweddarach mewn bywyd<br>• cynnal a hyrwyddo diben asesu yn lle creu cymhellion croes<br>• ein galluogi i ddeall bylchau yng nghynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr yn genedlaethol<br>• cydnabod pwysigrwydd parhaus cymwysterau mewn cyd-destun ehangach<br>• cefnogi gwelliant cenedlaethol<br>• galluogi cynnydd a chyrhaeddiad i gael eu hystyried fel rhan o ddarlun cyfannol ehangach o'n dysgwyr<br>• cael ei ddatblygu mewn ffordd sy'n ystyried natur ddwyieithog addysg yng Nghymru yn llawn<br><br>Cwestiynau penodol i'w hateb:<br><br>• Beth mae deilliannau asesiadau sampl yn ei ddweud wrthym am gynnydd dysgwyr mewn perthynas â'r disgwyliadau ar sail oedran a nodir yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, ar draws meysydd dysgu a phrofiad a sgiliau'r cwricwlwm?<br>• Sut mae'r deilliannau hyn yn wahanol ar gyfer mathau gwahanol o ddysgwyr.<br>• I ba raddau y mae deilliannau asesiadau sampl yn dangos cynnydd cenedlaethol |

| Elfennau | Manylion |
|---|---|
| | dros amser, gan gynnwys mwy o degwch o ran cyrhaeddiad. |
| **Sampl:** | Sampl haenedig ar hap o leoliadau a sampl ar hap o fyfyrwyr o bob lleoliad i greu sampl cenedlaethol cynrychioladol ac fel y gellir dadansoddi is-grwpiau. |
| **Yr amserlen:** | • Caffael astudiaeth ddichonoldeb – hydref 2023<br>• Dechrau astudiaeth ddichonoldeb – hydref 2023<br>• Caffael cyfnod cynllunio'r astudiaeth – hydref 2024<br>• Cyfnod treialu o flwyddyn academaidd 2025 i 2026 |

## Astudiaeth carfan

| Elfennau | Manylion |
|---|---|
| **Cysylltiad ag argymhellion yr astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso:** | Astudiaeth 3 – 'Astudiaeth Carfan Genedlaethol: 'Tyfu i fyny gyda Chwricwlwm i Gymru'' |
| **Cwestiynau ymchwil a gwerthuso allweddol y bydd yr astudiaeth hon yn eu hateb, sy'n gysylltiedig â damcaniaeth newid y rhaglen:** | • Ar gyfer dysgwyr:<br>○ Beth yw profiad dysgwyr yng Nghymru o'r cwricwlwm ar draws y system addysg gyfan a thu hwnt?<br>○ Sut mae profiad dysgwyr o'r cwricwlwm yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at wireddu dyheadau Cwricwlwm i Gymru?<br>○ Sut mae dysgwyr yn deall eu cynnydd eu hunain a sut mae hyn yn dylanwadu ar eu ffordd o ddysgu?<br>○ Sut mae llwybrau cynnydd a deilliannau yn gysylltiedig â newidynnau ar lefel ysgol a dysgwr?<br>○ Pa ffactorau sy'n gwella profiad dysgwyr o'r cwricwlwm a'u cynnydd i'r eithaf? (Er |

| Elfennau | Manylion |
|---|---|
| | enghraifft, arferion addysgu.)<br>○ Sut mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol a nod Cymraeg 2050 i gyrraedd miliwn o siaradwyr?<br>○ I ba raddau y mae tegwch o ran profiadau dysgwyr, a pham?<br><br>• Ar gyfer rhieni a gofalwyr<br>○ Sut mae rhieni a gofalwyr yn cael eu galluogi neu eu cefnogi i ddeall cynnydd eu plentyn wrth ddysgu?<br>○ Pa rôl/rolau y mae rhieni a gofalwyr yn ei/eu chwarae wrth gefnogi dysgu eu plentyn? |
| **Sampl:** | Sampl cynrychioliadol mawr o ddysgwyr a'u rhieni neu ofalwyr a gaiff eu recriwtio cyn iddynt ddechrau'r ysgol ac a ddilynir drwy gydol eu haddysg a thu hwnt. O bosibl, sampl o ddysgwyr hŷn a gaiff eu recriwtio cyn iddynt ddechrau Blwyddyn 7 fel y gellir deall profiadau a deilliannau ar lefel uwchradd ynghynt. |
| **Yr amserlen:** | Asesu opsiynau ar gyfer rhoi'r astudiaeth hon ar waith, gan gynnwys cyfleoedd am gyllid. Gan dybio dichonoldeb, rydym yn disgwyl y bydd yn cymryd o leiaf 2 i 3 blynedd cyn y bydd y gwaith maes yn dechrau fel y gellir symud ymlaen i'r cam datblygu a threialu. Yn y cyfamser, caiff data ar brofiadau dysgwyr eu darparu, yn bennaf drwy'r gwerthusiad ffurfiannol ac arolygon dysgwyr eraill fel astudiaeth amlgarfan WISERD |

## Synthesis ymholiadau ymarferwyr

| Elfennau | Manylion |
|---|---|
| **Cysylltiad ag argymhellion yr astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso:** | Astudiaeth 9 – 'Cydweithrediadau ymholiadau ymarferwyr' |
| **Cwestiynau ymchwil a gwerthuso allweddol y bydd yr astudiaeth hon yn eu hateb, sy'n gysylltiedig â damcaniaeth newid y rhaglen:** | • Beth mae mewnwelediadau o ymholiadau ymarferwyr yn ei ddangos am gryfderau ac anghenion y system er mwyn i ddyheadau'r Cwricwlwm i Gymru gael eu gwireddu?<br>• Beth yw'r goblygiadau i'r system yn seiliedig ar fewnwelediadau o ymholiadau ymarferwyr mewn perthynas ag ymdrechion i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru?<br>• Sut mae ymarferwyr yn cydweithio ag eraill i feithrin gallu a llywio eu galluedd mewn ffyrdd sy'n helpu i wella'r cwricwlwm a chynnydd dysgwyr? |
| **Sampl:** | Synthesis o allbynnau ymholiad proffesiynol i gynnwys y rhai sydd â phrofiad o ymholiad proffesiynol a'r rhai sy'n newydd iddo. |
| **Yr amserlen:** | Ers 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag ysgolion, gwasanaethau gwella ysgolion a sefydliadau addysg uwch ar raglen genedlaethol ymholiad proffesiynol athrawon.<br><br>Caiff gwaith datblygu pellach ei wneud yn 2023 i gytuno ar y modd y caiff canfyddiadau ymholiadau ymarferwyr eu syntheseiddio mewn ffyrdd sy'n galluogi'r system ehangach i ddysgu o'r mewnwelediadau hynny. |

## Adolygiad o gydlyniaeth y system

| Elfennau | Manylion |
|---|---|
| **Cysylltiad ag argymhellion yr astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso:** | Astudiaeth 5 – ‘adolygiad o gydlyniaeth y system’ |
| **Cwestiynau ymchwil a gwerthuso allweddol y bydd yr astudiaeth hon yn eu hateb, sy'n gysylltiedig â damcaniaeth newid y rhaglen:** | • I ba raddau y mae gweithgareddau ar lefel y system yn cefnogi ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel sy'n gwella ac yn helpu i wireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru, a sut?<br>• I ba raddau y mae dealltwriaeth gyffredin o rolau a chyfrifoldebau rhannau gwahanol o'r system yn cefnogi'r newidiadau i'r cwricwlwm?<br>• Sut mae partneriaid yn y system yn cydweithio i gefnogi'r newidiadau i'r cwricwlwm?<br>• Pa mor effeithiol a strategol y mae'r system yn gweithio i feithrin hyder a galluoedd (ymhlith ymarferwyr a phartneriaid) i wireddu dyheadau'r Cwricwlwm? |
| **Sampl:** | Dogfennau swyddogol yn ymwneud â holl weithgareddau'r system ac elfennau'r ddamcaniaeth newid.<br><br>Rhanddeiliaid sy'n gyfrifol am gynllunio a llunio’r dogfennau ac am y gwaith cyfathrebu cysylltiedig. Ni fydd hyn yn cynnwys ymchwil gydag ysgolion a lleoliadau; caiff y ffordd y maent yn rhyngweithio â'r system ehangach ei nodi fel rhan o'r gwerthusiad ffurfiannol. |
| **Yr amserlen:** | • Cam un: blwyddyn academaidd 2023 i 2024<br>• Cam 2: rhyw 3 i 4 blynedd wedi dechrau’r cyfnod o weithredu’r cwricwlwm er mwyn archwilio sut mae'r systemau ehangach wedi addasu i'r diwygiadau |

## Adran 4 – ffynonellau data eraill

20. Er na fyddai'r data sydd ar gael ar hyn o bryd o fewn y system yn darparu tystiolaeth ddigonol i ateb y cwestiynau ymchwil a gwerthuso am ddiwygio'r cwricwlwm yn benodol, gwyddom fod diwygio'r cwricwlwm yn newid pellgyrhaeddol a fydd yn newid profiadau dysgwyr, ymarferwyr ac ysgolion yn sylfaenol. Rydym yn gweithio i sicrhau bod ffynonellau data a chynlluniau gwerthuso yn cyd-fynd â'r gwerthusiad o'r Cwricwlwm i Gymru er mwyn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gydlynol o ddiwygiadau addysg yn ehangach. Bydd y rhain yn arbennig o bwysig i ddarparu gwybodaeth am gynnydd yn y byrdymor cyn y bydd yr astudiaethau mwy sy'n benodol i'r Cwricwlwm i Gymru yn cynhyrchu canfyddiadau, ac i sicrhau dull symlach sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

21. Ymhlith y mathau o ffynonellau tystiolaeth mae'r canlynol:

   a) setiau data gweinyddol Llywodraeth Cymru, er enghraifft cymwysterau, presenoldeb, gwaharddiadau a data ar y farchnad lafur
   b) data arolygon addysg hydredol a hirdymor (er enghraifft Astudiaeth Aml-garfan Addysg WISERD; y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN); yr arolwg hynt disgyblion)
   c) astudiaethau ymchwil a gwerthuso eraill sy'n cael eu cynnal gan Lywodraeth Cymru, partneriaid strategol ac academyddion sy'n berthnasol i ddiwygio'r cwricwlwm
   d) astudiaethau a data yn ymwneud â'r gweithlu, datblygiad proffesiynol ac arweinyddiaeth
   e) gwybodaeth barhaus a ddarperir gan bartneriaid strategol fel Estyn a'r gwasanaethau gwella ysgolion
   f) data eraill ar gyrhaeddiad er enghraifft Y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA)


22. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ecosystem wybodaeth newydd sy'n cefnogi ein trefniadau gwella ysgolion diwygiedig ac yn ategu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd y ffynonellau gwybodaeth uchod yn elfennau o'r ecosystem hon. Rydym yn gweithio gydag ysgolion, lleoliadau a phartneriaid addysg eraill i ystyried sut y caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio o fewn y system i wella safonau addysgol, yn ogystal â'r dystiolaeth hon yn cyfrannu at ddarlun cenedlaethol o gynnydd tuag at gyflawni amcanion y diwygiadau i'r cwricwlwm.

23. Caiff y ffynonellau data hyn eu rheoli gan amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid addysg eraill. Lle y bo'n bosibl, byddwn yn gweithio gyda rheolwyr data i gynyddu perthnasedd a chysondeb y ffynonellau data hyn â'r gwerthusiad o'r Cwricwlwm i Gymru i'r eithaf.

24. Mae'r diagram canlynol yn rhoi trosolwg cyfyngedig o gwmpas amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth, gan ddangos yr astudiaethau

gwerthuso sy'n benodol i'r Cwricwlwm i Gymru yng nghyd-destun y dirwedd wybodaeth ehangach:

## Prosiectau tystiolaeth sy'n cyfrannu at y gwerthusiad o'r Cwricwlwm i Gymru




25. Bydd rhaglen werthuso'r Cwricwlwm i Gymru yn gweithio gydag Ymchwil Data Gweinyddol (YDG) Cymru, partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau addysg uwch, i fanteisio ar ddata lle mae manylion adnabod wedi'u dileu sy'n cysylltu cyfleoedd ymchwil. Mae 'rhaglen waith arfaethedig YDG Cymru ar gyfer 2022 i 2026' yn nodi'r bwriad i ddefnyddio data ar lefel ysgolion, lleoliadau, ymarferwyr a dysgwyr. Caiff data arolygon y Cwricwlwm i Gymru eu lanlwytho i fanc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw er mwyn:

a) gwella effeithlonrwydd, gan osgoi dyblygu data ar draws nifer o astudiaethau
b) cynnig mewnwelediadau i'r amodau a'r ffactorau amgylcheddol sy'n helpu i gefnogi deilliannau i ddysgwyr, ymarferwyr, ysgolion a lleoliadau

26. Byddwn yn anelu at syntheseiddio'r dystiolaeth hon yn flynyddol er mwyn creu darlun cyffredinol i lywio adroddiadau blynyddol y Cwricwlwm i Gymru yn y dyfodol.

## Adran 5 – gwaith datblygu pellach sydd ei angen

28. Mae'r astudiaethau canlynol wedi'u hargymell gan yr astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso ond nid ydynt yn cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru yn y byrdymor. Pan fydd adnoddau yn caniatáu, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid strategol ac academyddion i sicrhau, pan fydd eu gwaith yn gyd-fynd â'r astudiaethau hyn a argymhellwyd, y gellir manteisio i’r eithaf ar y gwaith hwnnw i'n helpu i ddeall sut mae'r Cwricwlwm i Gymru yn gweithio.

| Rhifau’r astudiaethau cwmpasu ar gyfer gwerthuso | Teitl | Cwestiwn | Cefndir a chamau datblygu yn y dyfodol |
|---|---|---|---|
| 4 | Astudiaeth genedlaethol o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu | A yw ysgolion mewn sefyllfa dda fel sefydliadau sy'n dysgu i groesawu'r newidiadau sy'n ofynnol gan y Cwricwlwm i Gymru? | Lansiodd Llywodraeth Cymru ddull ysgolion yng Nghymru fel sefydliadau sy'n dysgu yn 2017 er mwyn helpu ysgolion i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Yn 2018, yn ei ddogfen 'Datblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu yng Nghymru' canfu’r OECD fod y mwyafrif o ysgolion yn datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu ac yn defnyddio'r model ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu fel sail i ddatblygu'n barhaus.<br><br>Mae data'n cael eu casglu drwy brosesau hunanwerthuso ysgolion o'u defnydd o'r pecyn cymorth ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.<br><br>Fodd bynnag, mae angen cynnal gwerthusiad cenedlaethol o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu er mwyn rhoi asesiad annibynnol o weithrediad y model a'i effeithiolrwydd.<br><br>Mae angen gwneud rhagor o waith datblygu er mwyn pennu sut y gellir rhoi darlun cenedlaethol fel rhan o'r rhaglen ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, neu ai drwy gynnal 'archwiliad dwfn' fel rhan o'r gwerthusiad ffurfiannol y gellir ateb y cwestiwn hwn orau. |

| Rhifau'r astudiaeth cwmpasu ar gyfer gwerthuso | Teitl | Cwestiwn | Cefndir a chamau datblygu yn y dyfodol |
|---|---|---|---|
| 6 a 7 | Astudiaethau achos: Elfennau o'r cwricwlwm<br><br>Ymchwil astudiaeth achos: Gweithgareddau a/neu ddeilliannau'r ddamcaniaeth newid | Beth sy'n digwydd mewn gwirionedd? Sut mae'r geiriau yng nghanllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol?<br><br>A yw'r pethau yr oeddem yn meddwl y byddent yn helpu i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru yn gweithio yn ôl y disgwyl? | Mae nifer o brosiectau pwysig eisoes yn cael eu sefydlu neu eu datblygu, a bydd y rhain yn darparu mewnwelediadau hanfodol i'r ffordd y mae elfennau o'r broses ddiwygio yn digwydd yn ymarferol.<br><br>Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• Prosiect Camau i'r Dyfodol<br>• treialu fframwaith Understanding by Design™<br>• prosiect ymholiad gwerthfawrogol gydag ymarferwyr, sydd ar gam cwmpasu cynnar<br><br>Er yr ymdrinnir ag astudiaethau eraill i ryw raddau drwy eu hymgorffori yn y gwerthusiad ffurfiannol, mae'n annhebygol y gallwn ymdrin â mwy na 3 i 4 archwiliad dwfn bob blwyddyn. Efallai y bydd hyn yn gadael bylchau neu oedi sylweddol cyn y gellir deall y broses yn llawn, felly bydd angen blaenoriaethu'n ofalus. |

| Rhifau’r astudiaethau cwmpasu ar gyfer gwerthuso | Teitl | Cwestiwn | Cefndir a chamau datblygu yn y dyfodol |
|---|---|---|---|
| 8 | Astudiaethau ymyrraeth: Ymchwil a datblygu | A yw ein mentrau a anelir at wella ymarfer yn gweithio, a beth y gallwn ei ddysgu oddi wrthynt?<br><br>(Darparu ymyriadau o ansawdd uchel o dan amodau ymchwil a datblygu er mwyn dysgu am yr amodau lle y gall ymyriadau fod yn effeithiol a lle y gellir eu gweithredu ar raddfa). | Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd canfod pa ymyriadau sy'n gweithio ym mha gyd-destunau a sut y gellir eu gweithredu ar raddfa, nid oes unrhyw astudiaethau'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru yn y byrdymor. Yn y tymor hwy, efallai y gellir gweithio gydag academyddion neu sefydliadau i gynnal treialon priodol, neu ddatblygu rhaglen o weithgarwch, yn amodol ar adnoddau. |

29. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd yn bwysig deall safbwyntiau a phrofiadau cyflogwyr a rhannau eraill o'r sectorau addysg a sgiliau, wrth i ddysgwyr symud ymlaen i gamau nesaf eu haddysg a'u gyrfaoedd o’r flwyddyn academaidd 2027 i 2028 ymlaen. Caiff y sectorau hyn eu hystyried yn fanylach mewn iteriadau o'r cynllun gwerthuso hwn yn y dyfodol, gan ein bod wedi canolbwyntio ein cynlluniau cychwynnol ar y rheini y mae'r diwygiadau i'r cwricwlwm yn cael yr effaith fwyaf uniongyrchol arnynt yn y tymor agos.

## Adran 6 – effaith gwerthuso a phriodoli

30. Rydym yn cydnabod bod yn rhaid inni werthuso effaith y diwygiadau – nid dim ond y ffordd y maent yn cael eu gweithredu a'r deilliannau cynnar, ond i ba raddau y mae'r pedwar diben yn cael eu gwireddu a'u cyfraniad at Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

31. Bydd 2 o’r astudiaethau yn gymorth mawr i'n helpu i ddeall effeithiau'r diwygiadau i'r cwricwlwm:

    - Astudiaeth 2 – ‘Rhaglen fonitro genedlaethol yn seiliedig ar samplau’, a fydd yn ymchwilio i gyrhaeddiad o ran sgiliau a gwybodaeth ar draws y cwricwlwm cyfan
    - Astudiaeth 3 – ‘Astudiaeth carfan’, a fyddai'n dilyn carfan o ddysgwyr rhwng 4 a 25 oed ac a fyddai'n hanfodol er mwyn helpu i ddeall profiadau, cyd-destunau a ffactorau sy'n dylanwadu ar y graddau y caiff y pedwar diben eu gwireddu ar gyfer unigolion a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar eu bywydau ar ôl iddynt gwblhau addysg orfodol

32. At hynny, bydd yn bwysig cysylltu data gweinyddol a data seiliedig ar samplau lle mae manylion adnabod y dysgwyr wedi'u dileu â chofnodion economaidd, gwaith ac iechyd ym manc data SAIL, fel y gellir asesu deilliannau tymor hwy. Byddwn yn gweithio gydag YDG Cymru i wneud hyn.

33. O ystyried pa mor gymhleth ac amlhaenog yw'r diwygiadau addysg hyn, byddwn yn dibynnu ar amrywiaeth o wybodaeth a dadansoddiadau i werthuso effaith ein diwygiadau, a bydd yn heriol nodi cysylltiadau achosol uniongyrchol. Er enghraifft, bydd angen inni gydnabod rôl diwygiadau eraill yn y system addysg, fel diwygiadau i addysg ôl-16, cymwysterau ac ADY, y Strategaeth Tlodi Plant, y Warant i Bobl Ifanc a Cymraeg 2050 wrth gyfrannu at unrhyw effeithiau a welir, yn ogystal â ffactorau allanol eraill fel effeithiau parhaus y pandemig a ffactorau economaidd a chymdeithasol eraill. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella safonau addysg a dyheadau i blant a phobl ifanc, a bydd y rhaglen werthuso yn cyfrannu'n helaeth at ddeall y ffactorau gwahanol sy'n sail i hyn.